

Asiantaeth fewnol Llywodraeth Cymru yw [Cymru Greadigol](#), a sefydlwyd ym mis Ionawr 2020. Ein cenhadaeth yw sbarduno twf ar draws y diwydiannau creadigol, adeiladu ar lwyddiant presennol a datblygu talent a sgiliau newydd – i sicrhau bod Cymru yn cael ei gweld fel un o'r lleoedd gorau i fusnesau creadigol leoli a ffynnu ynddo.

Mae'r sector sgrin yng Nghymru yn stori o lwyddiant rhyngwladol, ac mae ein diwydiant ffilm a theledu wedi dangos twf trawiadol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2020 a 2021, y sector sgrin oedd â'r cynnydd blynyddol uchaf mewn trosiant ar draws is-sectorau'r diwydiannau creadigol, gyda chynnydd o 36%. Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi doniau Cymru, gan hefyd ddenu cynyrchiadau mawr gan enwau mwyaf y byd.

Mae cymorth Llywodraeth Cymru, a ddarparwyd gan Cymru Greadigol, wedi bod yn sbardun allweddol o ran y twf diweddar ar draws y diwydiant yng Nghymru. Rydym yn gweithio gydag enwau mawr y diwydiant fel NBCUniversal, HBO, Warner Bros., Netflix a Lucasfilm sydd wedi dewis ffilmio prosiectau yng Nghymru, wedi'u denu gan yr haenau cyfoethog o ran talent, y dirwedd drawiadol ac amrywiol, y mynediad at hyfforddeion a'r pecynnau cymorth a chyngor pwrpasol rydym yn eu cynnig.

Mae Cymru Greadigol yn darparu cymorth ar gyfer unrhyw gynyrchiadau – bach neu fawr – sy'n dewis Cymru fel sail, o ofynion uniongyrchol neu dymor byr i ddiwallu anghenion strategol, tymor hwy presenoldeb mwy parhaol, ar raddfa fwy yng Nghymru.

Mae enw da a chadarn gan Gymru o ran darparu cynyrchiadau llwyddiannus o'r radd flaenaf megis *Willow* (Lucasfilm), *His Dark Materials* (HBO), *Watchmen* (HBO), *Sex Education* (Netflix), ac *A Discovery of Witches* (HBO), yn ogystal â dramâu a gafodd eu canmol gan gwmnïau cynhyrchu cynhenid fel *Keeping Faith*, *The Pembrokeshire Murders* a *The Pact*. Rydym hefyd yn cefnogi ffilmiau nodwedd a wnaed yng Nghymru sy'n hyrwyddo talent o Gymru o flaen y camera a thu ôl iddo megis *Havoc*, *Dream Horse*, *Apostle*, *Six Minutes to Midnight* ac *Eternal Beauty*.

Yn ogystal â rhoi cymorth logistaidd ar gyfer darparu cynyrchiadau drwy ein gwasanaeth Sgrîn Cymru, gallwn hefyd ddarparu cymorth ariannol i ddenu cynyrchiadau i Gymru.

Cyllid Cynhyrchu

Defnyddir Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol i gefnogi twf Cymru fel lleoliad ar gyfer cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf. Nod y cyllid yw cefnogi cwmnïau cynhyrchu a datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau sydd wedi'u creu ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae wedi'i anelu at y genres cynhyrchu canlynol: wedi'u sgriptio, heb eu sgriptio, animeiddio a datblygu gemau.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sector cynhyrchu cynnwys sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal ac amrywiol ar gyfer sylfaen gyflogaeth hirdymor a medrus. Mae'r cyllid wedi'i dargedu at gwmnïau sy'n gweithredu'r arferion diweddaraf ym maes cynhyrchu cynaliadwy ac yn sicrhau lles cast, criw a gweithwyr – boed yn weithwyr llawrydd, yn gontractwyr neu'n staff parhaol.

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Gallwch wneud cais am Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol os ydych yn bodloni **pob un** o'r meini prawf cymhwyso canlynol:

- Eich prif weithgarwch busnes yw Ffilm (nad yw'n theatrig), Teledu, Gemau neu Animeiddio
- Bydd y cynhyrchiad cyfan neu ran ohono yn cael ei wneud yng Nghymru
- Mae gennych gynllun cyllid a ystyriwyd yn fanwl gyda'r holl gyllid arall yn ei le
- Mae elfen sgiliau / uwchsgilio i'r prosiect
- Mae eich prosiect yn dangos ymrwymiad i amrywiaeth, cynwysoldeb a chynaliadwyedd
- Gallwch ddangos tystiolaeth o hyfywedd masnachol (cytundeb dosbarthu/comisiwn/darlledwr ac ati) sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn
- Mae o leiaf 12 wythnos tan ddyddiad dechrau'r prosiect (y prif gam ffotograffiaeth ar gyfer prosiectau Teledu/Ffilm) o ddyddiad yr ymholiad ynglŷn â'r prosiect
- Mae gan eich cwmni / tîm rheoli hanes y gellir ei ddangos o gyflawni yn y genre, ac o leiaf un cynhyrchiad masnachol a ryddhawyd o fewn y tair blynedd diwethaf i ddyddiad y cais.

Sut i wneud cais

Ewch i'r [gwiriwr cymhwysedd ar-lein](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r canllawiau llawn ar gyfer Cyllid Cynhyrchu i'w gweld [yma](#).

Gallwch hefyd gysylltu â ni'n uniongyrchol drwy e-bost - CymruGreadigol@llyw.cymru

Ffilmio yng Nghymru

Mae Cymru'n wlad fach ond nerthol sy'n meddu ar amrywiaeth o dirluniau trawiadol, gan gynnwys mynyddoedd epig, cymoedd, chwareli segur enfawr, cestyll anghysbell, rhaedrau, coetiroedd helaeth ac ogofâu. Mae ardal fynyddig y Gogledd yn hygyrch i ddinasoedd Lerpwl a Manceinion tra bod gan y De draffordd yr M4 sy'n ei chysylltu â dinasoedd mawr Lloegr yn ogystal â gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol i Lundain (mae'r amser teithio rhwng canol Caerdydd a Llundain Paddington tua 1 awr 50 munud).

Gall Sgrîn Cymru (gwasanaeth Cymru Greadigol) gynorthwyo gyda chanfod lleoliadau a chynghori ar ganiatadau a phrosesau sydd eu hangen i ffilmio mewn gwahanol ardaloedd, gan gynnwys ein Parciau Cenedlaethol syfrdanol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae gennym gronfa ddata ar-lein sylweddol o filoedd o leoliadau ledled Cymru, a byddwn yn gweithio gyda chynhyrchwyr i sicrhau bod y lleoliadau gorau'n cael eu datgelu ac, os oes angen, yn helpu i hwyluso'r gwaith o ffilmio ar leoliad drwy gysylltu â'r awdurdodau lleol a'r cyrff cyhoeddus perthnasol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ayyb.

[Gogledd Cymru](#) – cestyll godidog, chwareli llechi, afonydd sy'n llifo'n bendramwnwgl ac wrth gwrs mynyddoedd, llynnoedd a rhaedrau Eryri.



[Canolbarth Cymru](#) – tirweddau gwyrdd bryniog cyfoethog Powys ac arfordir dilychwin Ceredigion, o Fannau Brycheiniog a Mynyddoedd y Cambria i'r bryniau meddal o amgylch Llanidloes.



[De Cymru](#) – o arfordir prydferth Sir Benfro a Gŵyr i dir garw'r Cymoedd a dinasweddau modern Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe.



Mae gan Sgrîn Cymru [gronfa ddata ar-lein sylweddol o griw a gwasanaethau cynhyrchu llawrydd](#) sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae'r prif gwmnïau cyfleusterau yng Nghymru yn cynnwys:



movietech

GORILLA

Gofod Stiwdio

Mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i wella a datblygu gallu seilwaith stiwdio ledled Cymru, boed drwy weithio gyda stiwdios sy'n bodoli eisoes, neu drafod cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd.

Dyma'r prif stiwdios yng Nghymru:



[Dragon Studios](#) – sy'n cynnig pum llwyfan, yn amrywio rhwng 10,000 o droedfeddi sgwâr a 28,000 o droedfeddi sgwâr o ran maint. Mae gan lwyfannau 1-4 uchder clir i'r bondo o 10.30 metr (33.8 o droedfeddi) tra bod gan Lwyfan 5 uchder clir o 16 metr (53 o droedfeddi).

Cyswllt: Tom Guy ✉ tom@dragonstudios.wales



[Wolf Studios](#) – cyfleuster o'r radd flaenaf ger canol Caerdydd sy'n cynnig pum llwyfan, yn amrywio rhwng 14,000 o droedfeddi sgwâr a 50,000 o droedfeddi sgwâr gydag uchderau rhwng 30 o droedfeddi a 58 o droedfeddi.

Cyswllt: Mark Hackett ✉ mark@wolfstudioswales.com



[Great Point Seren Studios](#) – ar hyn o bryd mae'n cynnig pedwar llwyfan (2 x 20,000 o droedfeddi sgwâr, 1 x 18,000 o droedfeddi sgwâr ac 1 x 16,000 o droedfeddi sgwâr) ynghyd â swyddfeydd, gweithdai a gofod storio propiau; gyda chynlluniau i ymestyn

Cyswllt: Eva Harries-Davies ✉ edavies@seren-studios.com

Tua diwedd 2022 mae [Aria Studios](#) yn agor yng Ngogledd Cymru, a fydd yn cynnig dwy stiwdio acwstig o 20,000 o droedfeddi sgwâr ynghyd â'r holl wasanaethau ategol.

Mae manylion stiwdios eraill yn ogystal â gofod adeiladu yng Nghymru i'w gweld [yma](#).

Sgiliau a Thalent

Mae darparu cymorth sgiliau a thalent ar draws y sector Sgrin yng Nghymru yn un o flaenoriaethau allweddol Cymru Greadigol.

Mae Cymru Greadigol yn gweithio mewn partneriaeth â'r undebau, darparwyr hyfforddiant, addysg bellach, addysg uwch, darlledwyr, adrannau'r llywodraeth, diwydiant ac ar y cyd â chyrff sgiliau ledled y DU, gan gynnwys ScreenSkills. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda chynrychiadau i sicrhau bod cyfleoedd â thâl helaeth ar gyfer lleoliadau lefel mynediad ac uwchsgilio.

I gael arweiniad o ran y cyfleoedd niferus a'r rhaglenni sgiliau creadigol gwych i gefnogi pobl greadigol yng Nghymru, ewch i'n [gwefan](#).

I gael rhagor o wybodaeth ar unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â CymruGreadigol@llyw.cymru